sicrhau bod cyfathrebiadau'n
**gweithio i bawb**

# Adolygiad Ofcom o'r sianel deledu BBC Three arfaethedig

**GWAHODDIAD I ROI SYLWADAU:**

Dyddiad cyhoeddi: 24 Mehefin 2021

Dyddiad cau ar gyfer ymatebion: 8 Gorffennaf 2021

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg 1

2. Sianel deledu BBC Three 2


## Atodiad


A1. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn 8

A2. Egwyddorion ymgynghori Ofcom 10

A3. Taflen glawr yr ymgynghoriad 11

A4. Cwestiynau 12

# 1. Trosolwg

### Beth rydym yn ymgynghori arno - yn gryno

Cyhoeddodd y BBC gynnig i lansio BBC Three fel sianel deledu ym mis Ionawr 2022. Mae wedi ymgymryd â phrawf lles y cyhoedd ("PIT"), ac mae Bwrdd y BBC wedi dod i'r casgliad fod y cynnig yn pasio'r prawf lles y cyhoedd.

Er mwyn diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol, mae'n rhaid i Ofcom archwilio unrhyw newidiadau arwyddocaol y mae'r BBC yn dymuno eu gwneud i'w gwasanaethau teledu, radio ac ar-lein cyhoeddus. Y 'gwahoddiad i roi sylwadau' hwn yw dechrau ein hasesiad o gynnig y BBC i ail-lansio BBC Three fel sianel deledu.

Rydym yn cyflawni asesiad o'r cynnig gan y BBC i benderfynu a oes angen asesiad pellach ohono er mwyn pennu p'un a yw'r cynnig wedi'i gyfiawnhau ai beidio yng nghyd-destun y potensial am ei werth i'r cyhoedd a'r effaith ar gystadleuaeth.

Mae'r Siarter a'r Cytundeb yn datgan yn echblyg y bydd cyflwyno gwasanaeth cyhoeddus newydd bob amser yn "faterol". Yn yr achos hwn, rydym yn ystyried y byddai lansio BBC Three fel sianel deledu'n gyfystyr â gwasanaeth cyhoeddus newydd, ac rydym felly yn bwriadu canfod bod y newid hwn yn un materol.

Rydym o'r farn i fwrw 'mlaen gydag asesiad cystadleuaeth ail gam manylach ("BCA") gan fod cynnig y BBC yn ymwneud â nifer o bartïon â buddiant sydd wedi codi ystod o faterion yn ymgynghoriad PIT y BBC i'w hasesu ymhellach. Yn y ddogfen hon rydym yn rhoi cyfle i randdeiliaid ddarparu sylwadau ar hyn o beth ac yn ceisio barn gychwynnol i ddeall sut mae rhanddeiliaid yn ystyried y gallai lansio BBC Three effeithio arnynt os bydd yn digwydd.

Rydym yn croesawu ymatebion i'n cwestiynau yn Atodiad 4. Mae'n rhaid cyflwyno'r rhain erbyn 8 Gorffennaf 2021.

Byddwn yn cwblhau ein hasesiad cychwynnol o fewn chwe wythnos, erbyn 5 Awst 2021, ac yn penderfynu a yw adolygiad cystadleuaeth ail gam manylach wedi'i gyfiawnhau.

# 2. Sianel deledu BBC Three

## Cefndir

2.1 Cenhadaeth y BBC yw gweithredu er budd y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa trwy ddarparu allbwn a gwasanaethau diduedd, nodedig ac uchel eu hansawdd sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn difyrru. [1] Efallai y bydd y BBC am wneud newidiadau i'w gweithgareddau presennol neu geisio datblygu gwasanaethau newydd i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd yn well wrth gyflawni ei chenhadaeth.

2.2 Efallai y bydd rhai newidiadau'n fach; er enghraifft, penderfyniadau golygyddol o ddydd i ddydd am raglenni unigol, neu eu hamserlennu. Fodd bynnag, fel sefydliad mawr a ariennir gan y cyhoedd, gallai rhai newidiadau y byddai'r BBC efallai yn dymuno eu gwneud gael effaith arwyddocaol ar gystadleuaeth yn y farchnad cyfryngau ehangach.

2.3 Gallai'r effaith fod yn gadarnhaol o ran mwyafu'r gwerth i'r cyhoedd ac annog cystadleuaeth trwy gynnig mwy o ddewis, gan symbylu galw neu hyrwyddo arloesedd er budd dinasyddion a defnyddwyr y DU. Er hynny, mae'n bosib y gallai rhai newidiadau a gynigir gan y BBC niweidio cystadleuaeth; er enghraifft, trwy dyrru allan buddsoddiad gan drydydd partïon, gan arwain yn y pen draw at ddeilliannau negyddol i gynulleidfaoedd. Oherwydd hyn, mae'r Siarter a Chytundeb, sy'n disgrifio cenhadaeth a dyletswyddau'r BBC, yn darparu yn gyntaf i'r BBC, ac yna i Ofcom, ystyried effeithiau newidiadau arwyddocaol i wasanaethau teledu, radio ac ar-lein cyhoeddus y BBC ar gystadleuaeth.

2.4 Cyhoeddodd y BBC brawf lles y cyhoedd ("PIT") o'i chynnig i lansio BBC Three fel sianel deledu ar 24 Mehefin 2021. Bydd Ofcom yn awr yn cynnal ei asesiad ei hun o gynigion y BBC i benderfynu a oes angen asesiad pellach i bennu p'un a yw'r cynnig wedi'i gyfiawnhau ai beidio yng ngoleuni'r potensial am ei werth i'r cyhoedd a'r effaith ar gystadleuaeth.

## Y cynnig gan y BBC

2.5 Mae'r BBC yn bwriadu ail-lansio BBC Three fel sianel deledu ym mis Ionawr 2022 i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd 16-34 oed sy'n gwylio teledu darlledu ar sail reolaidd ond sy'n ddefnyddwyr ysgafn teledu'r BBC yn well.[2] Mae'r BBC yn nodi bod y gwylwyr hyn yn tueddu i fod o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd C2DE, sy'n byw y tu allan i Lundain a de-ddwyrain Lloegr yn ogystal â'r rhai na allant ffrydio cynnwys yn hawdd.[3]

2.6 Mae'r BBC yn bwriadu i BBC Three ddarlledu rhwng 7pm a 4am bob dydd. Byddai'r sianel ar gael ar y prif lwyfannau daearol, lloeren a chebl ym mhob un o wledydd y DU.

2.7 Mae cynllun y BBC ar gyfer y sianel yn cynnig:

---

[1] Siarter Frenhinol a Fframwaith Cytundeb y BBC. Cyfeirir at y rhain fel y "Siarter" a'r "Cytundeb"

[2] Roedd BBC Three yn sianel deledu rhwng mis Chwefror 2003 a mis Chwefror 2016 pan ddaeth â'i gweithrediad darlledu i ben gan ddechrau cynnig ei chynnwys ar sail ar-alw yn unig.

[3] Sianel BBC Three newydd: Prawf Lles y Cyhoedd, 24 Mehefin 2021

a) Cyllideb cynnwys flynyddol o £72.5m. Dyma'r un gyllideb cynnwys ag y byddai ar gyfer BBC Three heb lansio'r sianel ddarlledu.

b) Cymysgedd o genres, gan gynnwys ffeithiol, adloniant, drama, materion cyfoes y DU a rhyngwladol, comedi, chwaraeon, cerddoriaeth, ffilmiau a chaffaeliadau.

c) Bwletin newyddion bob nos.

d) Bydd cynyrchiadau gwreiddiol y BBC (h.y. rhaglenni a gomisiynir gan y BBC ond gan gynnwys darllediadau gwreiddiol ac ailddarllediadau) yn cyfrif am 70% o'r oriau darlledu. Mae'n cynnig hefyd y bydd dros 300 awr o raglenni a ddarlledir am y tro cyntaf bob blwyddyn, gan gyfrif am 24% o oriau darlledu rhwng 7pm a hanner nos.

2.8 Fel rhan o'r cynnig, mae'r BBC hefyd wedi nodi'r canlynol:

a) Bydd BBC Three yn darlledu rhaglennu cyn y trothwy a fydd yn apelio at gynulleidfaoedd 13-15 oed a 16-34 oed.

b) Bydd dau draean o'r gwariant ehangach ar raglenni BBC Three y tu allan i Lundain.

c) Fel sianel gwasanaeth cyhoeddus newydd, mae'r BBC yn cynnig y dylai Ofcom mandadu amlygrwydd ar gyfer y sianel BBC Three newydd o fewn 24 safle uchaf y canllawiau rhaglenni electronig. Gweler paragraff 2.24 isod.

2.9 Mae'r BBC yn bwriadu lansio'r sianel yn SD a HD ac eithrio yn Yr Alban lle defnyddir capasiti ar gyfer sianel BBC Scotland ac yng Nghymru lle mae dyraniad y capasiti HD yn amodol ar drafodaeth gyda S4C HD.

2.10 I gynnwys BBC Three o fewn y capasiti dosbarthu presennol mae'r BBC yn bwriadu cyfyngu ar oriau gweithredu CBBC fel bod darllediadau'n dod i ben am 7pm yn lle 9pm. Nid yw'r cynnig yn effeithio ar amodau ein Trwydded Weithredu ar gyfer CBBC.[4]

## Dadansoddiad y BBC

2.11 O dan delerau'r Cytundeb, mae'n rhaid i'r BBC asesu p'un a yw unrhyw newid arfaethedig i'w gwasanaeth cyhoeddus yn 'faterol' ai beidio.[5] Os bydd yn penderfynu bod newid yn faterol, mae rhwymedigaeth ar y BBC i ymgymryd ag asesiad pellach, sef 'prawf lles y Cyhoedd' (PIT), sydd i'w adolygiad gan Fwrdd y BBC. [6]

2.12 Er mwyn cymeradwyo cynnig, mae'n rhaid i Fwrdd y BBC gael ei fodloni bod y PIT yn dangos y canlynol yn llwyddiannus:

a) mae'r newid arfaethedig yn cyfrannu at gyflawni cenhadaeth y BBC a hyrwyddo o leiaf un o'r dibenion cyhoeddus;

---

[4] Trwydded Weithredu ar gyfer Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC yn y DU.
[5] Y Cytundeb, Cymal 7
[6] Y Cytundeb, Cymal 8

b) cymerwyd camau rhesymol i sicrhau na fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau andwyol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol nad ydynt yn angenrheidiol er mwyn cyflawni cenhadaeth a dibenion cyhoeddus y BBC yn effeithiol; ac

c) mae gwerth cyhoeddus y newid arfaethedig yn cyfiawnhau unrhyw effaith andwyol y gallai ei chael ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

2.13 Os bydd Bwrdd y BBC wedi'i fodloni, mae'r PIT wedyn yn cael ei gyflwyno i Ofcom i ni ei adolygu. Daeth y BBC i'r casgliad yn ei PIT fod lansio BBC Three fel sianel deledu'n faterol gan ei fod yn ymwneud â lansio Gwasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU.[7] Daeth Bwrdd y BBC i'r casgliad fod y PIT wedi cael ei fodloni. Gellir gweld ei gasgliadau yma.

2.14 Rôl Ofcom yn awr yw ymgymryd â'n hasesiad ein hunain.

## Rôl Ofcom

2.15 Rôl Ofcom yw diogelu cystadleuaeth deg ac effeithiol pan fydd y BBC yn bwriadu gwneud newidiadau i'w gweithgareddau gwasanaeth cyhoeddus.[8] I gyflawni'r rôl hon, mae'n rhaid i ni bennu a yw gwerth cyhoeddus unrhyw newid arfaethedig yn cyfiawnhau unrhyw effeithiau andwyol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

2.16 Mae'r Cytundeb yn rhannu'r gwaith hwn i ddau gam.[9] Yn ystod y cam cychwynnol, y mae'n rhaid i ni ei gwblhau erbyn 5 Awst 2021,[10] mae'n ofynnol i ni:

a) gadarnhau a ydym yn cytuno â'r BBC bod ei chynnig yn 'faterol' o fewn y diffiniad a ddisgrifir yn y Cytundeb; ac, os ydym yn cytuno

b) penderfynu ar ba ffurf y dylai ein hasesiad manwl fod yn ystod yr ail gam.

2.17 Bydd ail gam ein gwaith ar ffurf naill ai Asesiad Cystadleuaeth y BBC (BCA) neu asesiad byrrach sy'n ystyried elfennau'r BCA (Asesiad Byrrach). Yn ein dogfen arweiniad *Assessing the impact of proposed changes to the BBC's public service activities* ('yr arweiniad BCA')[11], rydym yn esbonio bod:

a) BCA yn fwy tebygol o fod yn briodol "pan fydd cynnig yn codi materion sylweddol, cymhleth a/neu arbennig o ddadleuol, sydd o bosib yn ymwneud â nifer o bartïon â diddordeb a ffyrdd y gallai fod effaith andwyol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol"; tra bod,

---

[7] Mae'r Cytundeb yn diffinio newid materol fel cynnwys cyflawni unrhyw weithgaredd newydd fel Gwasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU - Cymal 7(7)(a).
[8] Erthygl 46(5)(a) y Siarter.
[9] Y Cytundeb, Cymalau 9-11
[10] Os, yn ystod y cam cychwynnol rydym yn penderfynu naill ai nad oes gennym ddigon o wybodaeth am y cynnig i alluogi ni i gwblhau ein gwaith, neu oherwydd yr ymddengys i ni fod angen gwneud gwaith sylweddol pellach ar gynnig y BBC, mae'n bosib y byddwn yn cyfarwyddo'r BBC i ddileu ei chyhoeddiad ac i'w ailgyhoeddi a'i ailgyflwyno dim ond pan fydd y gwaith hwnnw wedi'i gwblhau.
[11] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0028/99415/bbc-public-service-activities-proposed.pdf

b) Asesiad Byrrach yn debygol "os bydd ystod fwy cul o faterion i'w hystyried", er enghraifft os byddwn yn ystyried bod prawf lles y cyhoedd y BBC "yn ymdrin yn ddigonol â phob mater (neu'r mwyafrif ohonynt)."[12]

2.18 Mewn naill ai BCA neu Asesiad Byrrach, bydd ein gwaith yn cynnwys:

a) adolygiad o'r gweithdrefnau y mae'r BBC wedi'u dilyn wrth ymgymryd â'i PIT;

b) adolygiad o asesiad y BBC o werth cyhoeddus, gan brofi dadansoddiad y BBC a'r ystod o dystiolaeth y dibynnwyd arni i ddangos y gwerth cyhoeddus ychwanegol y bydd y cynnig yn ei ddarparu uwchlaw ei gwasanaethau presennol;

c) ein hasesiad ein hunain o ba un a yw'r newidiadau a fyddai'n deillio o gynnig y BBC yn cael effaith andwyol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, gan gywain tystiolaeth ychwanegol ac ystyried materion a godwyd gan randdeiliaid eraill fel y bo'n briodol; ac

d) asesiad terfynol, yn seiliedig ar ffeithiau penodol yr achos a chan gymryd ein holl ddyletswyddau a rhwymedigaethau perthnasol i ystyriaeth, a ba un a yw gwerth cyhoeddus y cynnig yn cyfiawnhau unrhyw effaith andwyol y gallai ei chael ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

2.19 Ar ddiwedd y broses, byddwn yn cyrraedd un o bedwar penderfyniad posib:

a) y gall y BBC symud ymlaen gyda'r cynnig ar y ffurf a gyflwynwyd i ni;

b) na all y BBC symud ymlaen â'r cynnig;

c) y gall y cynnig symud ymlaen, yn amodol ar unrhyw amodau neu addasiadau a fynnir gennym ni; neu

d) fod yn rhaid i'r BBC ailystyried elfennau o'i phrawf lles y cyhoedd, neu ddilyn unrhyw weithdrefnau pellach yr ystyriwn eu bod yn briodol.

2.20 Rydym bob amser yn ceisio cwblhau ein gwaith mor brydlon ac effeithlon â phosib. Mae'n rhaid i Ofcom gwblhau BCA o fewn chwe mis. Mewn cyferbyniad, mae'n rhaid cwblhau Asesiad Byrrach ymhen llai na chwe mis gan ei fod yn ymwneud â set o faterion a dargedir yn fwy.

2.21 Yn y naill achos na'r llall, byddwn yn ymgynghori â rhanddeiliaid cyn dod i benderfyniad p'un a yw gwerth cyhoeddus y cynnig yn cyfiawnhau unrhyw effaith andwyol y gallai ei chael ar gystadleuaeth deg ac effeithiol ai beidio.

2.22 Mae'r Cytundeb yn gosod rhwymedigaethau ar Ofcom i bennu amodau Trwydded Weithredu penodol ar gyfer y BBC,[13] ac yn rhoi'r disgresiwn i ni osod y cyfryw amodau rheoleiddio pellach y tybiwn eu bod yn briodol i fynnu i'r BBC, wrth ddarparu'r Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU, gyflawni'r genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus, a sicrhau y gwasanaethir cynulleidfaoedd yng ngwledydd y DU yn dda.

[12] Gweler paragraff 4.35

[13] Y Cytundeb, cymal 13

2.23 Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, fel sianel teledu darlledu newydd, byddwn yn ystyried pa newidiadau y bydd eu hangen i'r Drwydded Weithredu ochr yn ochr â'n hasesiad ail gam o gynnig y BBC. Byddem yn ymgynghori â rhanddeiliaid fel rhan o hyn.

2.24 Wrth lansio sianel newydd bydd y BBC angen safle ar y canllaw rhaglenni teledu electronig ("EPG) er mwyn darlledu. Mae cod EPG Ofcom yn pennu rheolau mewn perthynas â chanllawiau rhaglenni electronig gan gynnwys ble y mae'n rhaid i sianeli penodol ("Sianeli Dynodedig") ymddangos yn y canllawiau hyn. Sianeli Dynodedig yw sianeli sydd â hawl i safle amlwg mewn canllawiau rhaglenni electronig o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("y Ddeddf").[14] Os bydd sianel ddarlledu newydd yn cael ei lansio gan y BBC, fe fyddai'n Sianel Ddynodedig ac â hawl i safle amlwg o dan y Ddeddf.[15]

2.25 Byddwn yn ymgynghori ar unrhyw newidiadau a gynigiwn i'r cod EPG i gynnwys BBC Three ochr yn ochr â'n hymgynghoriad BCA neu Asesiad Byrrach os byddwn yn symud ymlaen at asesiad ail gam.

## Ein hasesiad cychwynnol o gynnig y BBC a'r gwahoddiad hwn i roi sylwadau

2.26 Mae'r Cytundeb yn datgan yn echblyg y bydd cyflwyno gwasanaeth cyhoeddus newydd yn y DU bob amser yn 'faterol'.[16] Ar yr amod i ni gael ein bodloni bod cynnig y sianel deledu BBC Three yn wasanaeth cyhoeddus newydd, ni fydd angen dadansoddiad pellach i bennu materoldeb cynnig y BBC i lansio BBC Three fel sianel deledu. Rydym yn ystyried bod lansio BBC Three fel sianel teledu darlledu, yn gyfystyr â gwasanaeth cyhoeddus newydd yn y DU (o ystyried bod cynnwys BBC Three yn cael ei ddarparu i gynulleidfaoedd y BBC dim ond ar sail ar-alw trwy BBC iPlayer) ac felly rydym yn bwriadu canfod bod y newid yn faterol, rydym yn gofyn am farn rhanddeiliaid ar y casgliad hwn. Nid ydym yn ystyried bod y newid i CBBC yn faterol yn ei rinwedd ei hun, ond rydym yn croesawu mewnbwn gan randdeiliaid ar hynny hefyd. Gan eu bod yn ffurfio rhan o PIT y BBC, byddwn yn ystyried yr effaith fel rhan o'n dadansoddiad cyffredinol.

2.27 Yn yr asesiad cychwynnol hwn, rydym felly yn bwriadu canolbwyntio ar:

a) benderfynu a yw prawf lles y cyhoedd y BBC yn cynnwys digon o wybodaeth am ei chynnig i alluogi ni i gwblhau asesiad cystadleuaeth manylach yng ngham dau; ac os ydy

b) penderfynu a yw'n briodol i ymgymryd â BCA llawn neu Asesiad Byrrach. Gan fod nifer o bartïon â buddiant sydd wedi codi ystod o faterion cystadleuaeth posib mewn perthynas â PIT y BBC yn ymwneud â'r cynnig, rydym o'r farn y dylem ymgymryd â BCA llawn.

c) cywain gwybodaeth gan randdeiliaid ynghylch sut y gallai cynnig y BBC effeithio arnynt os bydd yn symud ymlaen. Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau yn Atodiad 4

[14] Adran 310(2) Deddf Cyfathrebiadau 2003
[15] Adran 310(4) Deddf Cyfathrebiadau 2003
[16] Cymal 7(7)(a) y Cytundeb.

isod. Mae croeso i ymatebwyr ddarparu unrhyw dystiolaeth arall hefyd - er enghraifft, ymchwil y farchnad - a allai gyfeirio ein gwaith.

2.28 Os byddwn yn penderfynu ymgymryd â phroses BCA neu Asesiad Byrrach ddilynol, byddwn yn cymryd yr holl gyflwyniadau a dderbyniwn i ystyriaeth. Byddwn hefyd yn cymryd canfyddiadau ein hasesiad cychwynnol, ein dadansoddiad o gynnig y BBC ac unrhyw ymchwil farchnad y penderfynwn ei chyflawni i ystyriaeth.

## Y camau nesaf

2.29 Byddwn yn cyhoeddi ein casgliadau ar, neu cyn 5 Awst 2021, ynglŷn â materoldeb, a pha un a oes angen asesiad pellach felly, ac a oedd prawf lles y cyhoedd y BBC yn cynnwys digon o wybodaeth i alluogi ni i gwblhau asesiad cystadleuaeth manylach.

2.30 Bryd hynny, byddwn hefyd yn amlinellu'r math o asesiad pellach y bwriadwn ei gynnal, naill ai BCA neu Asesiad Byrrach, a dechrau ar yr asesiad hwnnw ar y pwynt hwnnw. Byddwn yn ymgynghori eto â rhanddeiliaid yn ystod ein BCA neu Asesiad Byrrach cyn dod i benderfyniad.

2.31 Mae manylion ychwanegol y prosesau y byddwn o bosib yn ymgymryd â hwy wedi'u disgrifio yn ein Harweiniad BCA.[17]

## Ymateb

2.32 Mae'r cwestiynau ar gyfer yr ymgynghoriad hwn yn Atodiad 4. Y terfyn amser ar gyfer derbyn ymatebion yw 8 Gorffennaf 2021.

2.33 Dylid anfon ymatebion i BBCThree.Assessment@ofcom.org.uk.

[17] Mae ein Harweiniad BCA ar gael yma

# A1. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut i ymateb

A1.1 Hoffai Ofcom dderbyn safbwyntiau a sylwadau ar y materion a godir yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 8 Gorffennaf 2021.

A1.2 Gallwch lawrlwytho'r ffurflen ymateb yn https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-3/review-bbc-three-television-channel. Gallwch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.

A1.3 If your response is a large file, or has supporting charts, tables or other data, please email it to BBCThree.Assessment@ofcom.org.uk, as an attachment in Microsoft Word format, together with the cover sheet.

A1.4 Rydym yn croesawu ymatebion mewn fformatau heblaw print, er enghraifft recordiad sain neu fideo Iaith Arwyddion Prydeinig.  I ymateb yn BSL:

- Anfonwch recordiad ohonoch chi'n arwyddo eich ymateb. Dylai hyn fod yn 5 munud ar y mwyaf. Fformatau ffeil addas yw DVD, wmv neu QuickTime. Neu
- Uwchlwythwch fideo ohonoch chi'n arwyddo eich ymateb yn uniongyrchol i YouTube (neu wefan letya arall) ac anfonwch y ddolen atom.

A1.5 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a dderbyniwn (oni bai bod eich ymateb yn gyfrinachol)

A1.6 Nid oes angen copi papur o'ch ymateb arnom yn ychwanegol at fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod derbyn eich ymateb os caiff ei gyflwyno trwy'r ffurflen we electronig, ond ddim fel arall.

A1.7 Nid oes rhaid i chi ateb yr holl gwestiynau yn yr ymgynghoriad os nad oes barn gennych; mae ymateb byr ar un pwynt yn unig yn iawn. Rydym yn croesawu ymatebion ar y cyd hefyd.

A1.8 Byddai'n ddefnyddiol petai modd i'ch ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau a ofynnir yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau wedi'u rhestru yn Atodiad 4. Byddai'n ddefnyddiol hefyd petai modd i chi egluro pam mae gennych y safbwyntiau sydd gennych, a beth rydych chi'n ei gredu y byddai effaith cynigion Ofcom.

A1.9 Os hoffech chi drafod y materion a'r cwestiynau a godir yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch trwy e-bost yn BBCThree.Assessment@ofcom.org.uk.

## Cyfrinachedd

A1.10 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion cyn y daw'r cyfnod ymgynghori i ben. Yn benodol, gall hyn helpu pobl a sefydliadau sydd ag adnoddau cyfyngedig neu gyfarwydd-deb â'r materion i ymateb mewn ffordd fwy gwybodus.  Felly, er tryloywder ac arfer rheoleiddio da, ac oherwydd i ni gredu ei fod yn bwysig i bawb sydd â

buddiant mewn mater fedru gweld barn ymatebwyr eraill, rydym fel arfer yn cyhoeddi'r holl ymatebion ar wefan Ofcom mor fuan ag y byddwn yn eu derbyn.

A1.11 Os credwch y dylai eich ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, nodwch ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol iddynt, ac esboniwch pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych eisiau i'ch enw, cyfeiriad, manylion cyswllt eraill neu deitl swydd aros yn gyfrinachol, darparwch nhw ddim ond yn y daflen glawr, fel nad oes rhaid i ni olygu eich ymateb.

A1.12 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan, neu ran ohono, yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifri ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A1.13 Noder hefyd y tybir bod yr hawlfraint a'r holl eiddo deallusol yn yr ymatebion wedi'u trwyddedu i Ofcom eu defnyddio. Mae hawliau Ofcom wedi'u hesbonio ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

## Y camau nesaf

A1.14 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, byddwn yn cyhoeddi ein casgliadau, ynglŷn â pha un a yw prawf lles y cyhoedd y BBC yn cynnwys digon o wybodaeth i alluogi ni i gwblhau asesiad cystadleuaeth manylach.

A1.15 Bryd hynny, byddwn hefyd yn amlinellu'r math o asesiad pellach y bwriadwn ei gynnal. Os down i'r casgliad bod angen asesiad pellach, byddwn wedyn yn dechrau ar BCA neu Asesiad Byrrach. Byddwn yn ymgynghori eto â rhanddeiliaid yn ystod ein BCA cyn dod i benderfyniad. [18]

A1.16 Os dymunwch, gallwch gofrestru i dderbyn diweddariadau post i'ch hysbysu am gyhoeddiadau newydd gan Ofcom.

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A1.17 Mae Ofcom yn ceisio gwneud ymateb i ymgynghoriad mor hawdd â phosib I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 4.

A1.18 Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynglŷn â sut rydym yn rheoli ein hymgynghoriadau, gyrrwch e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Yn benodol rydym yn croesawu syniadau ar sut y gallai Ofcom gywain barn grwpiau neu unigolion yn fwy effeithiol, megis busnesau bach a chwsmeriaid preswyl, sy'n llai tebygol o gyflwyno eu barn trwy ymgynghoriad ffurfiol.

A1.19 Os hoffech chi drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn fwy cyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth: corporationsecretary@ofcom.org.uk.

[18] Mae manylion ychwanegol y prosesau y byddwn o bosib yn ymgymryd â hwy a'r amserlen ddangosol wedi'u disgrifio yn ein Harweiniad BCA.

# A2. Egwyddorion ymgynghori Ofcom

## Mae gan Ofcom saith egwyddor y mae'n eu dilyn ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

### Cyn yr ymgynghoriad

A2.1 Pryd bynnag y bo'n bosib, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol gyda phobl a sefydliadau cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr, i ddarganfod a ydym ar y trywydd iawn o ran ein ffordd o feddwl. Os na fydd gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i esbonio ein cynigion, yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

### Yn ystod yr ymgynghoriad

A2.2 Fe fyddwn yn glir ynghylch pwy yr ydym yn ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba gyfnod.

A2.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori mor fyr a syml â phosib, gyda chrynodeb o ddwy dudalen ar y mwyaf. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosib i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni. Os yw'r ymgynghoriad yn un cymhleth, mae'n bosib y byddwn yn darparu canllaw Cymraeg Clir / Plain English, i helpu sefydliadau bach neu unigolion na fyddent fel arall yn gallu rhoi o'u hamser i rannu eu barn.

A2.4 Byddwn yn ymgynghori am ddeg wythnos, gan ddibynnu ar effaith botensial ein cynigion.

A2.5 Bydd rhywun o fewn Ofcom â gofal sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain a cheisio cyrraedd y nifer mwyaf posib o bobl a sefydliadau a allai fod â buddiant yn neilliannau ein penderfyniadau. Y prif berson cyswllt yw Eiriolwr Ymgynghori Ofcom os oes gennych farn am y ffordd yr ydym yn rhedeg ein hymgynghoriadau.

A2.6 Os na fydd modd i ni ddilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn esbonio pam.

### Ar ôl yr ymgynghoriad

A2.7 Rydym yn credu ei fod yn bwysig i bawb sydd â buddiant mewn mater fedru gweld barn ymatebwyr eraill, felly rydym fel arfer yn cyhoeddi'r holl ymatebion ar wefan Ofcom mor fuan ag y byddwn yn eu derbyn. Ar ôl yr ymgynghoriad byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n esbonio beth rydym yn mynd i wneud, a pham, gan ddangos sut mae barn ymatebwyr wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hyn.

# A3. Taflen glawr yr ymgynghoriad

## MANYLION SYLFAENOL

Teitl yr ymgynghoriad:

At (cyswllt yn Ofcom):

Enw'r sawl sy'n ymateb:

Yn cynrychioli (chi eich hun neu sefydliad/au):

Cyfeiriad (os nad yw wedi'i dderbyn trwy e-bost):

## CYFRINACHEDD

Ticiwch isod pa rannau o'ch ymateb sy'n gyfrinachol, gan roi eich rhesymau dros hynny

Dim byd ☐

Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐

Ymateb cyfan ☐

Sefydliad ☐

Rhan o'r ymateb ☐

Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau? ____________________________________________

______________________________________________________________________________________

Os ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu eich sefydliad beidio â chael eu cyhoeddi, a all Ofcom barhau i gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, ar gyfer unrhyw rannau cyfrinachol, crynodeb cyffredinol nad yw'n datgelu'r wybodaeth benodol nac yn galluogi i chi gael eich adnabod)?

## DATGANIAD

Cadarnhaf fod yr ohebiaeth a ddarperir gyda'r daflen glawr hon yn ymateb ffurfiol i ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth ddarparu’r ymateb hwn, rwyf yn deall y gallai fod angen i Ofcom gyhoeddi’r holl ymatebion, gan gynnwys y rhai sydd wedi’u marcio’n gyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.” Os wyf wedi anfon fy ymateb trwy e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynglŷn â pheidio â datgelu cynnwys ac atodiadau e-bost.

Mae Ofcom yn ceisio cyhoeddi ymatebion wrth iddynt gael eu derbyn. Os yw eich ymateb yn anghyfrinachol (yn rhannol neu'n gyfan gwbl), a bod yn well gennych i ni gyhoeddi eich ymateb dim ond ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os yn gopi caled)

# A4. Cwestiynau

A4.1 Mae Ofcom yn gwahodd trydydd partïon i ymateb i'r cwestiynau a nodir isod. Darparwch unrhyw dystiolaeth ategol sydd gennych i Ofcom pan fo hynny'n bosib.

Cwestiwn 1: Gan fod cynnig y BBC yn ymwneud â chyflwyno sianel gwasanaeth cyhoeddus newydd, nid ydym yn ystyried bod angen dadansoddiad pellach i bennu materoldeb. Os ydych yn anghytuno, esboniwch pam rydych yn ystyried nad yw cynigion cyhoeddedig y BBC yn faterol.

Cwestiwn 2: Ydych chi'n ystyried bod cynigion cyhoeddedig y BBC yn glir mewn perthynas â'u graddfa (o ran adnodd ariannol ac o ran ymgyrhaeddiad a'r math o gynnwys) a'r graddfeydd amser ar gyfer gweithredu? Os nad ydych, darparwch fanylion y meysydd lle teimlwch fod angen mwy o eglurder.

Cwestiwn 3: A wnaeth broses ymgynghori'r BBC ddarparu cyfle priodol i chi gyflwyno'ch barn yn llawn? Os na wnaeth, rhowch fanylion.

Cwestiwn 4: Esboniwch a ydych yn ystyried y dylai Ofcom ymgymryd â BCA neu Asesiad Byrrach o gynnig y BBC.

Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno ag asesiad y BBC yn ei brawf lles y cyhoedd o botensial y cynnig, o ran gwerth cyhoeddus ac/neu effaith ar y farchnad? Darparwch unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd gennych i esbonio'ch barn.

Cwestiwn 6: Ydy'r cynnig hwn yn amlygu unrhyw effaith farchnad arwyddocaol a allai effeithio ar eich cynhyrchion a'ch gwasanaethau? Darparwch unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd gennych i esbonio sut rydych yn ystyried y gallai lansio sianel deledu BBC Three effeithio arnoch os bydd yn symud ymlaen.